Yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai

Yr Is-adran Diogelu'r Cyhoedd

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn print bras, Braille neu ar gasét ffoniwch 01267-228925

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk

SCH82/03/05/b

Cynnwys Tudalen

Beth yw carbon monocsid? 3

Ydych chi mewn perygl? 3

Pam mae'n beryglus? 3

Beth yw prif achosion gwenwyno gan garbon monocsid? 4

Beth yw'r arwyddion? 4

Defnyddio cyfarpar yn ddiogel:

i. tanau nwy 5
ii. gwresogyddion nwy symudol (LPG) 6
iii. gwresogyddion sy'n llosgi olew 7
iv. bwyleri a stofiau sy'n llosgi coed 7

Sut mae rhwystro carbon monocsid? 8

Pwy all roi cyngor imi? 8

Eiddo Rhent 9

Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt 10

Beth yw carbon monocsid?

Nwy gwenwynig yw carbon monocsid. Nwy heb arogl, blas na lliw arno yw e. Mae'n cael ei gynhyrchu gan gyfarpar gwresogi sy'n llosgi tanwydd ffosil megis nwy, glo, coed neu olew **os**:

- oes nam ar y cyfarpar, neu
- yw'r corn simnai wedi'i flocio, neu
- nad yw'r ystafell wedi'i hawyru'n iawn.

Ydych chi mewn perygl?

Mae rhai pobl yn meddwl trwy gamgymeriad mai dim ond systemau gwresogi sy'n llosgi nwy sy'n achosi gwenwyno gan garbon monocsid. Gall ddigwydd, mewn gwirionedd gydag unrhyw system sy'n llosgi tanwydd ffosil (nwy, glo, coed ac olew) os oes nam ar y system sy'n cynnwys y cyfarpar a'r ffliw / simnai, neu os nad yw'r ystafell wedi'i hawyru'n ddigonol. Mae tuedd gan rai pobl i gysylltu achosion o wenwyno gan garbon monocsid â thai rhent – y gwir amdani yw bod mwy o bobl yn marw o ganlyniad i garbon monocsid yn eu cartrefi eu hunain nag mewn eiddo rhent.

Pam mae'n beryglus?

Nwy heb arogl, lliw na blas arno yw carbon monocsid. Mae hyn yn ei wneud yn anodd i'w ddarganfod. **Mae ei effeithiau yn gallu lladd.** Ar gyfartaledd, mae 50 o bobl y flwyddyn yn cael eu lladd gan garbon monocsid a achosir gan gyfarpar gwresogi diffygiol.

Beth yw prif achosion gwenwyno gan garbon monocsid?

- **Awyru annigonol;**
- **Cyfarpar heb ei gynnal a chadw'n briodol;**
- **Ffliwiau a chyrn simnai sy'n gollwng neu wedi'u blocio.**

Beth yw'r arwyddion?

Mae'r canlynol i gyd yn arwyddion y gall carbon monocsid fod yn bresennol:

- Fflamau nwy sy'n llosgi'n oren neu'n felyn yn hytrach nag yn las;
- Mae huddygl i'w weld ar y cyfarpar neu uwch ei ben, ni waeth pa danwydd sy'n cael ei losgi;
- Mae'r glo neu'r coed yn llosgi'n araf neu mae'r tân yn diffodd;
- Mae'n anodd cynnau'r tân;
- Nid yw'r ystafell wedi'i hawyru'n iawn;
- Mae'r ffliw neu'r corn simnai wedi'i flocio – gwyliwch rhag mwg yn yr ystafell;
- Cewch y symptomau canlynol yn ddisymwth:
    - Blinder
    - Syrthni
    - Pennau tost
    - Pendro

- Poenau yn y frest
- Chwydu
- Gwendid yn y cyhyrau.

Gall anadlu gormod o garbon monocsid (mae hyn yn amrywio o berson i berson) eich lladd. Gellir dod i gysylltiad â'r nwy unwaith yn unig neu dros gyfnod hir.

Defnyddio Cyfarpar yn Ddiogel:

i. Tanau Nwy

- Prynwch gyfarpar gan werthwyr dibynadwy, cyfrifol yn unig, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion Prydeinig ac Ewropeaidd priodol o ran diogelwch.
- Dylech geisio osgoi prynu cyfarpar ail-law os yw'n bosibl, dewiswch gyfarpar sydd wedi'i archwilio.
- Peidiwch byth â mynd ati i osod neu ailgysylltu cyfarpar nwy eich hun.
- Mae rhaid i gyfarpar nwy gael ei osod gan osodwr sydd wedi'i gofrestru gyda CORGI.
- Os caiff y cyfarpar ei gysylltu â simnai bresennol, cofiwch ei lanhau yn gyntaf.
- Sicrhewch fod eich cyfarpar nwy yn cael ei wasanaethu'n gyson, unwaith y flwyddyn yn achos tanau nwy a bwyleri.
- Mae awyru'n hollbwysig. Mae pob math o danwydd yn defnyddio aer ffres wrth iddo losgi ac yn cynhyrchu nwyon gwastraff. Peidiwch byth â blocio neu rwystro unrhyw fent.

ii. Gwresogyddion Nwy Symudol (LPG)

- Peidiwch â defnyddio cyfarpar o'r math hwn mewn llefydd cyfyng lle nad yw'r aer yn cylchdroi'n ddigonol.
- Mae'r holl wresogyddion cabinet symudol yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig BS 5258 a BS EN449 ac mae gan bob un ohonynt ddyfais diogelwch sy'n diffodd y cyfarpar os yw'r ystafell yn mynd yn rhy fwll. Nid oes gan wresogyddion eraill a ddyluniwyd i'w defnyddio yn yr awyr agored ddyfais o'r fath ac ni ddylid byth eu defnyddio mewn llefydd cyfyng.
- Dewiswch gyfarpar sy'n cwrdd â safonau Prydeinig neu Ewropeaidd o ran diogelwch.
- Ceisiwch osgoi prynu cyfarpar ail-law.
- Gofynnwch i osodwr sydd wedi'i gofrestru gyda CORGI i osod cyfarpar a'i archwilio.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr.
- Gwnewch yn siwr bod cyfarpar yn cael ei wasanaethu'n gyson.
- Sicrhewch fod digonedd o aer ffres yn dod i'r ystafell, peidiwch â blocio fentiau.
- Cadwch wresogyddion symudol draw o gelfi, dillad gwely a llenni.
- Peidiwch â defnyddio gwresogyddion symudol i sychu dillad.

iii. Gwresogyddion sy'n Llosgi Olew

- Mae gwresogyddion â chyrn simnai neu ffliwiau sy'n llosgi olew eisiau aer er mwyn iddynt fedru gweithio'n iawn, gwnewch yn sir bod aer yn gallu dod i mewn i'r ystafell.
- Trefnwch fod cwmni dibynadwy, cyfrifol yn gosod eich gwresogydd.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr.
- Gwnewch yn siwr bod y cyfarpar yn cael ei wasanaethu'n gyson.
- Peidiwch â cheisio addasu medryddion neu offer eich hun.

iv. Bwyleri a Stofiau sy'n Llosgi Olew

- Defnyddiwch goed o safon yn unig.
- Sicrhewch fod contractiwr cymwys yn gosod y cyfarpar, ei fod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr ac yn cadw at y rheolau adeiladu a'r côd ymarfer.
- Gwnewch yn siwr bod digon o aer yn dod i mewn i'r ystafell.
- Dylai'r coed fod wedi'i sychu'n ddigonol, peidiwch byth â defnyddio coed gwlyb.
- Os yw'r gwresogydd wedi bod yn mudlosgi'n araf, e.e. dros nos, dylid llosgi'r tanwydd yn gyflym am gyfnod er mwyn sychu unrhyw greosot a chynhesu'r simnai eto.

- Sicrhewch fod y simnai'n cael ei lanhau ar ddiwedd y tymor gwresogi ac o leiaf unwaith yn ystod y tymor.
- Gwnewch yn siwr bod y stôf neu fwyler yn cael ei archwilio'n gyson.

Sut mae rhwystro carbon monocsid?

- **Dylid profi cyfarpar a'i wasanaethu unwaith bob 12 mis a dylid sicrhau mai contractwyr cymwys sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn.**

- **Mae angen digon o aer ar eich cyfarpar i anadlu tra ei fod yn gweithio, felly, peidiwch byth â gorchuddio na chau unrhyw fentiau neu frics aer yn yr ystafell. Bydd hyn yn sicrhau bod yr aer yn cylchdroi'n rhwydd o amgylch yr ystafell a'i fod yn gadael drwy'r simnai neu'r ffliw.**

- **Er mwyn i'r aer fedru cylchdroi'n barhaol, dylai'r ffliw neu simnai fod wedi'i adeiladu'n briodol a dylid ei lanhau yn aml.**

Pwy all roi cyngor imi?

Os ydych yn amau bod cyfarpar yn eich cartref yn gollwng carbon monocsid, cysylltwch â staff Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd o'ch Awdurdod Lleol a fydd yn dod i fesur lefel y carbon monocsid yn eich cartref.

Cyngor Sir Caerfyrddin 0845 6580445

Eiddo Rhent

O dan Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1994 fel y'u diwygiwyd, mae gofyn i bob landlord sicrhau bod contractiwr wedi'i gofrestru gyda CORGI yn archwilio'r cyfarpar nwy yn ei eiddo o leiaf unwaith y flwyddyn. Yn ogystal, dylai gadw cofnod o'r cyfarpar sydd wedi'i archwilio, dyddiadau'r archwiliadau hyn, unrhyw namau y cafwyd hyd iddynt ac unrhyw waith trwsio a wnaed. Rhaid cadw cofnod am ddwy flynedd o leiaf o ddyddiad yr archwiliadau, ac mae'n rhaid i'r landlord yn ôl y gyfraith roi copi o'r cofnodion i unrhyw ddarpar denant cyn iddo symud i mewn.

Hefyd, mae gofyn i'r landlord bellach fod yn gyfrifol am y ffliwiau sydd wedi'u cysylltu â'r cyfarpar nwy. Dylent ymateb i unrhyw awgrymiadau nad ydynt yn gweithio fel y dylent. Mae gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd bwerau statudol eang i sicrhau bod landlordiaid yn cadw at lythyren y ddeddf. Os ydych yn amau bod unrhyw gyfarpar sy'n llosgi nwy, olew, glo ac ati yn anniogel dylech gysylltu ag Adain Gwasanaethau Preswyl yr Isadran Tai a all sicrhau bod y landlord yn cyflawni'r gwaith atgyweirio angenrheidiol.

0845 6580445

Rhagor o Wybodaeth a Manylion Cyswllt

Os hoffech ragor o wybodaeth, mynnwch air ag unrhyw un o'r cymdeithasau sy'n berthnasol i chi:

Coed a thanwydd solet

Cymdeithas Tanwydd Solet	0845 6014406
Gwasanaeth Ymgynghori ynghylch Glo /Llinell Gymorth y Gwasanaeth Glo	0345 125300
Cymdeithas Genedlaethol y Llefydd Tân	0121 2001310

Nwy

Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch	
Cyngor ynghylch diogelwch nwy	0845 3450055
Gosodwyr Nwy CORGI	0870 4012200
Cyngor Defnyddwyr Nwy a Thrydan	01452 331131

Nwy Silindr

Cymdeithas Nwy Petroliwm Hylifedig	www.lpga.co.uk
Calor Gas Ltd	01753 540000

Olew Tanwydd

Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Cyfarpar	
Llosgi Prydain	0121 2002100

Mae Carbon Monocsid yn Lladd!